

Astudiaeth Achos - Adolygiad Gwella Ansawdd

Rheoli Rhaglenni a Phortffolio ym Mhrifysgol Abertawe

Rhagarweiniad

O fewn yr Adolygiad Gwella Ansawdd (QER), fel yr oedd yn gweithredu yn 2020, gofynnwyd i brifysgolion nodi meysydd ffocws ar gyfer yr adolygiad, ac un o'r meysydd a grybwyllwyd gan Brifysgol Abertawe oedd ei dull o reoli portffolio. Gwnaeth hyn argraff dda ar y tîm adolygu, gan ddenu canmoliaeth am yr hyn a welai fel 'defnydd rhagweithiol y Brifysgol o brosesau a gweithdrefnau datblygedig ar gyfer rheolaeth strategol effeithiol a datblygiad gweithredol ac adolygu ei phortffolio academaidd i sicrhau perthnasedd parhaus ei rhaglenni.' Ystyriwyd ymagwedd y Brifysgol fel proses cynllunio busnes effeithiol, yn seiliedig ar ddata ac yn ymatebol i ddyllanwadau allanol, gan alluogi'r sefydliad i adolygu hyfywedd y ddarpariaeth bresennol yn ogystal â nodi cyfleoedd i ddatblygu rhaglenni newydd mewn meysydd strategol allweddol.

Yn y bôn, mae'r Brifysgol wedi datblygu dull integredig o reoli rhaglenni sydd, trwy weithio gydag amryw o adrannau ar draws y sefydliad, yn galluogi dull mwy cydlynol o ddatblygu rhaglenni academaidd a'u hadolygu'n barhaus. Gofynnir i academyddion weithio gyda'r adrannau hynny sy'n gyfrifol am wybodaeth busnes a sicrhau ansawdd o'r cychwyn cyntaf er mwyn osgoi proses fwy graddol a thameidiog. Mae'r system yn seiliedig ar ddarpariaeth a defnydd o wybodaeth reoli fewnol ac allanol gynhwysfawr i helpu â gwerthuso gwerth y portffolio academaidd cyfredol ac ar gyfer y dyfodol.

Cefndir hanesyddol

Roedd y Brifysgol ers peth amser wedi bod yn adolygu ei dulliau o gymeradwyo rhaglenni, yn ogystal â monitro ac adolygu. Roedd sefydlu uned Gwasanaethau Ansawdd Academaidd gyfunol yn 2015 wedi rhoi cyfle i adolygu'r fframwaith sicrhau ansawdd cyffredinol, yn ogystal â chyflwyno methodoleg systematig ar gyfer rheoli portffolio.

O ran cynllunio, datblygu a chymeradwyo rhaglenni, mae'r rhai a gyfranogodd yn pwysleisio bod datblygu dull gweithredu newydd wedi bod yn daith hir o'r hyn a ystyriwyd yn ddull mwy traddodiadol o ddatblygu a chymeradwyo rhaglenni; un a allai gael ei hysgogi'n fwy gan fuddiannau adrannol neu hyd yn oed unigol na photensial y farchnad a llwyddiant. Nodwyd nifer o egwyddorion fel rhai allweddol wrth lunio dull llwyddiannus.

Yn gyntaf, roedd y rhai sy'n gyfrifol am y Gwasanaethau Academaidd sefydliadol yn awyddus i symud i ffwrdd o staff academaidd yn cael eu gadael i ddatblygu rhaglen heb gefnogaeth ac ar eu pen eu hunain i raddau helaeth a oedd, yn ôl pob tebyg, yn gwneud llwyddiant y rhaglen yn y pen draw yn llai sicr. Y nod oedd ymgysylltu ag academyddion ar ddatblygu rhaglenni, gan gynnwys wrth fynd ati i lunio achos busnes, a hynny o ddechrau'r syniad.

Yn ail, roedd yna awydd i symud oddi wrth gyd-destun lle'r oedd prosesau sicrhau ansawdd yn dod ar draws cynnig ar gyfer rhaglen yn nes ymlaen, tuag at ddull mwy integredig gyda staff proffesiynol ac academyddion yn cydweithio i sicrhau ansawdd y rhaglen newydd. Y nod oedd osgoi'r math o densiwn 'nhw a ni' a all fodoli rhwng y rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu 'busnes' a'r rhai sy'n gyfrifol am ansawdd a rheoleiddio. I gyd-fynd â systemau newydd byddai deialog effeithiol rhwng y rhai sydd â buddiannau yn y fenter.

Yn drydydd, yr amcan fyddai proses fwy rheoledig a strategol yn seiliedig ar graffu systematig ar y farchnad, data cynhwysfawr a gwybodaeth fusnes effeithiol. Yn rhannol, ysgogwyd hyn gan ymgysylltiad y Brifysgol â phrosiect [i-MAP](#) (arloesedd mewn Sicrwydd Marchnad ar gyfer Rhaglenni newydd) HEFCE, oedd yn argymhell y dylid asesu rhaglenni newydd yn gynnar yn erbyn data ariannol a data'r farchnad, a'u goruchwyllo gan uwch reolwyr y sefydliad. Penododd y Brifysgol Bennaeth Gwybodaeth Marchnata, ac roedd system newydd ar gyfer Cymeradwyo a Rheoli Rhaglenni yn galluogi'r Brifysgol i gynnal plattfform ar-lein ar gyfer gwybodaeth ddiffiniol am raglenni a data perthnasol. Y bwriad wedyn oedd y byddai'r mentrau hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd y byddai rhaglen yn denu myfyrwyr.

Ar yr un pryd, roedd y Gwasanaethau Ansawdd Academaidd (AQS) am gyflwyno dull diwygiedig o adolygu ansawdd, gan fynd o ddigwyddiad blynyddol mwy traddodiadol i brosesau monitro parhaus - 'taith barhaus' - a fyddai'n fwy ymatebol ac yn seiliedig ar risg. Yn y bôn, y nod oedd canolbwyntio mwy ar raglenni a meysydd pwnc lle'r oedd heriau'n dod i'r amlwg, tra'n gwobrwyo meysydd oedd yn perfformio'n uchel yn gyson o ran nodweddion allweddol profiadau myfyrwyr.

Rheoli portffolio a chymeradwyo rhaglenni

Mae gan y Brifysgol yr hyn y mae'n ei weld fel dull systematig o reoli portffolio, trwy gydol cylchred y rhaglen, o'r prawf cysyniad cychwynnol i gymeradwyo'r rhaglen. Gan gydweithio dan ymbarél y Bwrdd Rheoli Rhaglen (PMB), mae'r Gwasanaethau Academaidd, yr Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol, a'r Tîm Gwybodaeth Marchnata yn defnyddio proses cynllunio busnes ac Adolygu Portffolio Blynyddol i adolygu hyfywedd y ddarpariaeth bresennol, i nodi meysydd newydd o flaenoriaeth strategol ac i nodi marchnadoedd ar gyfer cynigion newydd.

Y PMB yw'r porth cychwynnol sy'n gyfrifol am fonitro cynigion. Mae'n sicrhau bod rhaglenni'n cyd-fynd â phortffolio a strategaeth bresennol y Brifysgol, ynghyd â galw'r farchnad, ond mae hefyd yn ateb y cwestiwn allweddol ynghylch a fydd rhaglen bosibl yn recriwtio. Ar yr un pryd, mae'r Gwasanaethau Ansawdd Academaidd (AQS) yn craffu ar gynigion ar gyfer datblygu rhaglenni newydd, er mai'r Pwyllgor Cymeradwyo Rhaglenni (PAC), ar ran y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu a Senedd y Brifysgol, sydd â'r awdurdod o ran penderfyniadau terfynol ynghylch ansawdd a safonau rhaglenni.

O fewn yr un strwythur cyffredinol dan arweiniad y PMB, adolygir portffolio academaidd cyfadran neu ysgol o leiaf bob blwyddyn trwy'r broses adolygu portffolio. Mae'n ymgorffori gwybodaeth gan UCAS a HESA yn ogystal â data gwybodaeth fewnol am y farchnad, i nodi darpariaeth academaidd a allai gael ei thynnu'n ôl neu ei hatal. Mae'r Brifysgol yn hyderus bod data hygyrch yn caniatáu gwerthuso a gwneud penderfyniadau effeithiol, ac yn ei dro, yn hyrwyddo hyfywedd parhaus y portffolio academaidd.

Fodd bynnag, yr hyn sy'n gwneud y dull hwn yn arbennig o effeithiol, yw ei fod yn cael ei wneud ar-lein ac mewn cyd-destun lle gall gwahanol wasanaethau proffesiynol a staff academaidd gydweithio'n haws. Mae unedau academaidd yn llenwi ffurflen, a ddarperir gan y tîm Gwybodaeth Marchnata, er mwyn derbyn adroddiad gwybodaeth am y farchnad, sy'n dadansoddi data mewnol ac o ffononellau allanol perthnasol, gan gynnwys HESA ac UCAS. Ar yr un pryd, mae Gwasanaethau Academaidd yn ceisio gwybodaeth gan staff academaidd ac eraill sy'n ymwneud â chynnig y rhaglen. Mae'n broses gydweithredol yn ei hanfod sy'n golygu bod carfannau academaidd a phroffesiynol yn cydweithio o'r cychwyn cyntaf, lle mae'r naill a'r llall yn gallu cyfrannu at deitl, cynnwys, strwythur, achrediad, dull cyflwyno a hyd yn oed ffi'r rhaglen. Mae staff academaidd wedi sôn eu bod yn gwerthfawrogi gweithio gyda'r gwahanol randdeiliaid mewnol wrth iddynt gynllunio rhaglenni, tra bod Gwasanaethau Academaidd yn llai tebygol o glywed eu bod yn 'atal datblygiad' neu fod sicrwydd ansawdd yn rhwystr i arloesi. Mae'r Brifysgol yn hyderus bod y dull hwn o weithredu wedi caniatáu i'r Brifysgol ddatblygu cyrsiau o ansawdd uchel sydd, ar yr un pryd, yn defnyddio gwybodaeth helaeth am y farchnad i ddiwallu anghenion busnes craidd.

Rheoli ac adolygu rhaglenni

Mae'r un dull cyffredinol wedi'i ddefnyddio ar gyfer y trefniadau sicrhau ansawdd a gwelliant ar gyfer rheoli ac adolygu rhaglenni'n barhaus. Y nod fu cynnal ffurf ddiwygiedig o adolygiad ansawdd sy'n cyflawni mwy o integreiddio rhwng adolygiadau blynyddol a chylchol, a dull mwy cyfannol sy'n seiliedig ar ddata. Mae'r broses yn ymgorffori: Adolygiad Blynyddol o Raglenni (APR); adolygu a diwygio modiwlau; a chylchred pum mlynedd ar gyfer adolygiad cyfnodol o faes pwnc neu raglen.

O dan APR, gall timau rhaglen gyrchu a defnyddio data o wahanol ffynonellau mewnol ac allanol gan gynnwys gwerthuso modiwlau, gwybodaeth am berfformiad myfyrwyr, canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfywrwyr (NSS), ac adroddiadau arholwyr allanol, at ddibenion adolygu a gwella, megis diwygio modiwlau. Anogir staff academiaidd i fyfyrion ar fetrigau safonol a gwerthuso yn eu herbyn, Yn yr un modd, mae hunanwerthusiad ar gyfer Adolygiad Ansawdd bob pum mlynedd yn canolbwyntio ar ddata, gan ddefnyddio ystod debyg o adnoddau allanol a mewnol.

Mewn sawl ffordd, mae agweddau eraill ar y dull o fonitro ac adolygu yn fwy confensiynol. Mae cynlluniau gweithredu'r Adolygiad Blynyddol o Raglenni'n rhan o Gynlluniau Gweithredu Profiad Myfyrwyr cyfadrannau a meysydd pwnc, sydd wedyn yn cael eu monitro gan Bwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r Cyfadrannau. Mae'r AQS yn adolygu pob APR gyda materion sefydliadol yn cael eu codi ym Mhwyllgor Dysgu ac Addysgu'r sefydliad neu'r Bwrdd Dilyniant a Dyfarnu, fel y bo'n briodol. Ond wrth ddilyn y llwybr hwnnw, yr amcan yw ysgogi ymgysylltiad a newid parhaus yn seiliedig ar wybodaeth a myfyrdod.

Mae'r cyd-destun hefyd yn un lle mae'r Brifysgol yn ceisio defnyddio agweddau ar y gwahanol ddulliau cenedlaethol o sicrhau ansawdd a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr. Ar gyfer y cyntaf, mae'r Gwasanaethau Ansawdd Academiaidd yn monitro elfennau penodol - er enghraifft, newidiadau sylweddol yng nghanlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfywrwyr, ac yn ati i adolygu'r meysydd hynny. Ond mae yna fwrdd hefyd i ganolbwyntio ar y model Cymreig o ymagwedd at ansawdd sy'n seiliedig ar welliant.

Data

Mae'r Brifysgol yn pwysleisio arwyddocâd sylfaenol systemau rheoli gwybodaeth cywir a hygyrch ar gyfer ei hymagwedd at reoli rhaglenni a phortffolio. Rhoddodd tîm adolygu QAA gydnabyddiaeth i hyn trwy wneud sylwadau ffafriol ar hygyrchedd data at ddibenion gwerthuso a gwneud penderfyniadau. Galluogir y defnydd effeithiol o ddata ar gyfer gwerthuso a gwella gan nifer o ffactorau.

- Mae *Power BI* (Gwybodaeth Busnes) wedi'i gyflwyno fel y prif blatfform sefydliadol i hwyluso gwell mynediad at ddata mewnol ac allanol.
- Gwneir defnydd helaeth o ddata gwybodaeth am y farchnad wrth gynllunio meysydd pwnc newydd yn systematig ar gyfer y portffolio academiaidd.
- Mae Teclyn Adrodd ar Bortffolio yn olrhain y gwaith sy'n cael ei wneud ar raglenni newydd, y rhai sydd wedi'u diwygio, eu tynnu'n ôl neu eu hatal, gyda'r nod o ddarparu darlun byw o sut mae datblygiadau'r rhaglenni hynny'n dod yn eu blaenau.
- O fewn yr Adolygiad Blynyddol o Raglenni (APR), ac fel y nodwyd gan dîm QAA, gwneir defnydd llwyddiannus o ddata HESA ar ddilyniant, dargadwedd a dyfarniadau, yn ogystal â dadansoddiad o safleoedd o fewn tablau cynghrai ar gyfer meincnodi yn erbyn grwpiau cymharol.
- Cesglir data gwerthuso myfyrwyr gan ddefnyddio system *EvaSys* ar-lein, a thrwy hynny atgyfnerthu gwaith adolygu a gwerthuso gan dimau rhaglen o fewn y broses APR.
- Mae'r Brifysgol wedi cyflwyno Adroddiadau Asesu ar Ansawdd Arholiadau'r Brifysgol (ARQUE) sy'n darparu dadansoddiad ystadegol o ganlyniadau asesu modiwlau sy'n galluogi staff academiaidd i ystyried perfformiad, gan gynnwys canlyniadau anghyson.

- Mae data am ddeilliannau graddedigion, sy'n llywio strategaeth cyflogadwyedd y Brifysgol, yn cael ei werthuso mewn adolygiadau blynyddol a phob pum mlynedd.
- Yr un mor bwysig, mae'r data a'r wybodaeth yn cael eu lleoli ar hyb *SharePoint* APR i sicrhau y bydd popeth mewn un lle ar gyfer y Gwasanaethau Ansawdd Academaidd (AQS) rheolwyr academaidd, a staff gweinyddol ac academaidd.

Monitro a gwerthuso

Er mwyn adolygu'r ymagwedd gyffredinol, mae'r Brifysgol wedi sefydlu'r Pwyllgor Ansawdd Data Academaidd (ADQC) sydd â chylch gorchwyl i fonitro'r materion hyn a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Dysgu ac Addysgu. Mae'r cyfrifoldebau'n cynnwys symleiddio hygyrchedd data ar berfformiad academaidd, sicrhau trosolwg gwell o'r dirwedd data academaidd, a nodi'r pyrth a'r prosesau angenrheidiol i gyflawni hyn.

Y tu hwnt i hyn, nid yw AQS wedi cynnal gwerthusiad ffurfiol o effaith y dull eto. Fodd bynnag, gwnaed ymdrechion i wreiddio persbectif adfyfyriol ac mae'r Gwasanaethau Ansawdd Academaidd yn nodi, er bod pob templed yn cynnig cyfle i roi adborth, mae staff yn fwy tebygol o godi'r ffôn, ceisio cyngor neu awgrymu gwelliannau. Serch hynny, mae cynlluniau ar y gweill i sefydlu grŵp rhanddeiliaid. Hefyd, mae'r Brifysgol yn ymwybodol o allu amrywiol staff allweddol ar lefel rhaglen i wneud defnydd effeithiol a llawn o ddata, ac mae wedi ymrwymo i wneud cynnydd pellach o ran cefnogi staff mewn prosesau gwneud penderfyniadau ac adolygu.

Casgliad

Mae'r Brifysgol ac yn arbennig y Gwasanaethau Ansawdd Academaidd, er eu bod yn dal wedi ymrwymo i sicrhau safonau academaidd ac ansawdd, yn anelu at ailddiffinio ac ail-lunio'n sylfaenol arferion craidd, cyfarwydd yn ymwneud â chymeradwyo rhaglenni, y ogystal â monitro ac adolygu. Ar gyfer y cyntaf o'r rhain, mae tystiolaeth bod gan y Brifysgol broses cynllunio busnes mwy cydlynol sy'n elwa o weithio mewn partneriaeth ar draws cynrychiolwyr o'r adrannau marchnata, gwasanaethau proffesiynol staff academaidd, ac AQS gyda sylw penodol yn cael ei rhoi i reoleiddio ac ansawdd. Mae defnyddio data cywir a hygyrch yn rhoi hyder bod y Brifysgol yn datblygu ac yn cymeradwyo rhaglenni ymarferol o ansawdd uchel.

Ar gyfer monitro rhaglenni, mae yna uchelgais i barhau â symud at ddull mwy seiliedig ar risg a llai cylchol, lle mae ffynonellau data mewnol ac allanol yn galluogi proses Adolygiad Blynyddol o Raglenni wedi'i gwreiddio mewn ymyriad gwerth-uchel, ond dim ond lle bo angen. Fel arall, gall timau rhaglen ganolbwyntio ar fonitro a gwella parhaus.

Mae heriau o hyd. Mae'r pandemig wedi bod yn sail i ystyriaeth o hyblygrwydd ac ymatebolrwydd, ac mae ailstrwythuro sefydliadol wedi gofyn am rywfaint o ail-osod nodau. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaethau Ansawdd Academaidd yn hyderus eu bod wedi datblygu ymagwedd fwy cyfannol ac integredig at wahanol brosesau sicrhau ansawdd cyfarwydd, ac un sy'n seiliedig ar ddefnyddio data'n effeithiol i ddatblygu portffolio cryf a gwella ansawdd y ddarpariaeth bresennol.

Mae QAA yn ddiolchgar am y gefnogaeth a'r wybodaeth a ddarparwyd gan Adrian Novis, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Academaidd a Phil Maull, Pennaeth Gwasanaethau Ansawdd Academaidd, ym Mhrifysgol Abertawe wrth ddatblygu'r astudiaeth achos hon.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn y Gymraeg hefyd.

8 Mehefin 2022

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2022
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786
www.qaa.ac.uk

